



www.llennatur.com

# Bwletin Llên Natur 24

Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas

Chwefror 2010



## Pluen-eira yn ei het!

**Cafwyd llwyth o luniau gwych o'r oerfel oddi wrth ffotograffwyr yn Oriel gwefan Llên Natur.**

Ewch i edrych arnyn nhw. Dyma un sydd yn sefyll allan.

A dyma'r capswn a ychwanegodd Gwyn Williams at ei lun:

Llun yn sbio i fyny ar socan eira mewn coeden ger Canolfan Grefftau Rhuthun, 10 Ion 2010. Job beryglus iawn oherwydd bod 'na haid ohonynt a rheini i gyd wedi bod yn bwyta llond eu boliau.

## Cardiau post (a hen arferion) diflas

Ges i anrheg ddigon direidus eleni - llyfr yn dwyn y teitl *Boring Postcards*. Mae'r lluniau yn y llyfr hwn yn ddigon diflas mae'n rhaid dweud, oni bai eich bod am ryw reswm yn hoff o luniau awyr o fannau megis Redditch New Town ar ddiwrnod di-fflach, neu lun o dagfa geir y tu allan i'r Smallbrook Ringway yn Birmingham. Mae nifer o luniau o Gymru yno hefyd, gan gynnwys yr un a ddangosir yma o "Foryd Road, Towyn" a dynnwyd yn y 1970au a barnu wrth steil y ceir.

Trwy gyd-ddigwyddiad, cefais hefyd fenthg dyddiadur mewn llawysgrif gwreiddiol a gafodd ei achub o sgip yng nghyffiniau Cadeirlan Llanelwy gan Alun Williams. Mae'r dyddiadur yn rhedeg o 1921 drwodd gyda bylchau hyd yr 1940au ond nid yw enw'r awdur ynddo. Cofnodion adaryddol yw'r cynnwys, a rheiny yn rhai gwybodus hefyd - ond dim oll am unrhyw bwnc arall. Mae'n eitha amlwg o'r cynnwys - ei aml gyfeiriadau at blwyf ac eglwys - mai ficer Anglicanaidd yn ardal Tywyn, Abergele ydoedd, er mai ond yn y cyd-destun adaryddol y cyfeiriodd yr awdur at y rhain. Rhwng y tudalennau mae yna lythyr o ddinas Salisbury dyddiedig 1916 yn cyfarch "Mr. Thomas" ac mae fy nghyfaill Huw John Huws (sy'n deall y pethau 'ma) yn dweud wrthyf mai Rheithor Tywyn o 1890 i 1922 oedd gŵr o'r enw John Thomas. Ei olynydd oedd y Parch. Lorrimer Thomas, a'r unig reswm sydd gennyf i briodoli'r dyddiadur i'r cyntaf o'r ddau yw'r ffaith

fod y dyddiadurwr yn cyfeirio'n fynych at un o'i fêts adaryddol fel "Lorrimer". Tybiaf felly mai offeiriad wedi ymddeol oedd John Thomas a fu'n dilyn ei ddileit o adarydda, ac er waetha culni'r cofnodion, trwyddynt mae natur cymdeithas a gwerthoedd y cyfnod yn amlygu eu hunain.

Roedd cylch cymdeithasol Thomas yn freintiedig. A barnu

Llun o "Foryd Road, Towyn" tua 1963, allan o'r gyfrol *Boring Postcards* gan Phaedon Press



wrth ei ieithwedd a'i sillafu (Tŷ Slâts efo dwy acen grom) a'i son am "landers", hyderaf ei fod yn siarad Cymraeg er nad awgrymodd hynny unwaith yn ei gofnodion. Soniai yn dragwyddol am rhyw Captain Kneeshaw neu Major Appleby a fyddai'n dringo coed a chlogwyni i hel wyau cigfrain a chrehyrod. Er iddo ddbynnu'n helaeth hefyd ar

sgiliau a gwybodaeth (a gwn) cipar stâd Gwrych gerllaw, ni chawsom wybod beth oedd enw "the keeper" chwaith.

Soniodd Thomas unwaith iddo wyllo pâr o frych y coed yn codi nyth ac iddo aros nes iddynt ddodwy un wy, wedyn un arall...nes cyrraedd y pump arferol, cyn iddo ddwyn y cwbl ar gyfer ei gasgliad heb feddwl ddwywaith. Yn 1928 ymfalchiodd fod y "number of eggs in my collection is 2208". Ac yn Foryd Road, Tywyn, cofnododd fras yr ŷd, gwybedog mannog, pibyddion y dorlan. Nid oes bras yr ŷd yn unman yng Nghymru bellach, a go brin y bu'r ddau arall ar gyfyl Foryd Road, Tywyn ers degawdau. Dipyn o sgôr i lecyn sydd erbyn hyn yn cael ei gyfri ymysg rhai o fannau mwyaf diflas Prydain Fawr.

Addasiad o erthygl a ymddangosodd yn y Cymro

## Gwylanod Penddu ddoe a heddiw...



Tynnais y llun ar 9 Mai 09: gwylan benddu yn cael trafferth hedfan yn erbyn y gwynt a'r glaw. Alun Williams

Llyn Konwy o leia dhwy vchildir o Gwmpas. Ymma y mae Ynys y Gwylanod penne dŷon. [Llyn Conwy o leiaf ddwy filltir o'i gwmpas. Yma y mae Ynys y Gwylanod Pennau Duon] Parochialia Edward Llwyd Mae'r drefedigaeth hon yno o hyd a'r unig un yn sir Gaernarfon "of any size" yn ôl *The Birds of Caernarfonshire* gan John Barnes (1997).

### ...ac o'r DYDDIADUR

12 Chwefror 1925: *Chaffinch singing by vic. no cadence, warm sun but only for a few minutes 9am....Large nos of Blackhead gulls, (one only with black mwgwd on out of large no. examined, Feb 4)* [mae defnydd y Parch. John Thomas o'r gair "mwgwd" yn brawf cyntaf yn ei ddyddiadur ei fod yn Gymro Cymraeg].

28 Chwefror 1925 *Much singing as it was a fine day after a long spell cold & wet. Towyn, quite 1 in 6 Blackhead Gulls had black head...* Dyddiadur John Thomas o Dywyn, Abergele 1922-1942

Pa ganran o heidiau gwylanod penddu mis Chwefror sydd â "mwgwd du" heddiw?

## Sebon Teiliwr

Bu Mrs Heulwen Roberts (Anti Cein i'w chydabod) o Faentwrog yn son wrthym am fwsogl sy'n tyfu ar lannau pyllau a alwai'n "sebon teiliwr". Cofiai deilwriaid yn ei gasglu yn ystod ei ieuencid i smwddio i mewn i ddillad i'w startio. Ni wyddom at ba fwsogl y cyfeiriai, os mwsogl o gwbl ond fe gafwyd, ar ôl rhywfaint o ymchwil, ei bod yn bosibl mai cen cerrig oedd y planhigyn, e.e. *Ramalina calicaris*, y dywed Google bod defnydd arno yn lle startsh.

Bruce Griffiths ac Ann Corkett

A oes mwy o wybodaeth am hyn gan ein darllenwyr? Yn anffodus ar fonion coed mae *Ramalina* yn tyfu: "Uphof (1959) records that *Ramalina calicaris* was powdered and used instead of starch for dyeing perukes and wigs. It was used in Europe to make a yellow-red dye for woolens (Uphof 1959). Os nad *Ramalina*, beth felly?"

## Gwefan enwau lleoedd newydd

Meddai Guto Rhys: "Mae gwefan Prosiect Enwau Lleoedd Gogledd Iwerddon newydd ddod arlein. Mae'r grwp yn weithgar dros ben ac yn cyflawni gwaith rhagorol." Am wledd ewch i <http://www.placenamesni.org/>. Dyma enghraifft:

*The original Irish name of the town and parish of Bangor is Beannchar. The root word of Beannchar is beann 'point, spike' and the place-name appears to refer to the pointed, wattled enclosure around the early monastery here which was founded by St Comgall c. 555AD.*

Hannan R. J. (1992): Place-Names of Northern Ireland

## Cylch yn bell - glaw yn agos



Ilun: Twm Elias (ar achlysur arall)

Am ychydig ar ôl 11 o'r gloch fore'r 28 Rhagfyr 2009 cefais alwad ffôn gan Twm Elias o gyffiniau Cwm Dulyn, Dyffryn Nantlle yn tynnu fy sylw at gylch o gwmpas yr haul. "Dos allan" meddai, "a gyda dy fraich wedi ei ymestyn o'th

flaen, dyro dy fawd dros yr haul a'th law ar led ac mi weli di gylch golau o'i gwmpas tua lle mae dy fys bach yn cyrraedd". Dyma fynd i edrych, ac, ia, dyna lle'r oedd o yn union fel y disgrifiodd Twm. "Cylch yn bell - glaw yn agos" yw'r arwydd meddai Twm. A do, cafwyd gwyntoedd mawr y noson honno (DB)


Cyfeiriad: Am y Tywydd, Twm Elias, Gwasg Carreg Gwalch 2008

## Bach Mwswm (gweler hefyd Bwletin 18, tud 4)

"Yr hen amser roedd llawer o dai gwlad wedi eu toi â llechi tewion a didriniaeth iawn o'u cymharu â llechi yr oes hon, ac yr oeddynt mor arw fel yr oedd yn angenrheidiol i ddodi mwswm [mwsogl] yn ofalus yng nghysylltiadau'r llechi oll. Y prif amcan trwy hyn oedd sicrhau cerrig y to rhag y storm. Gwnaed y gwaith o fwysynu fel rheol yn yr hydref er i'r to fod yn ddiddos a'i ddiogelu erbyn gerwinder y gaeaf. Yr oedd ym meddiant y mwysynwr fach bychan at y gorchwyl o dynnu mwswm, ac ynddo tua llathen [?]. Math arall oedd fachau llai, tebyg i grafanc ceiliog i'w ddefnyddio mewn llaw. Gwelir ar rai hen lyfrau vestries gofnodion am swm o arian wedi ei dalu i faswniaid am fwysynu toion eglwysi'r wlad".

Evan Jones (1850 -1928) o Cymru Evan Jones - detholiad o bapurau Evan Jones Ty'n Pant, Llanwrtyd, gol. Herbert Hughes (Gomer 2009)

## Blue John



Tynnwyd y llun mewn mwynglawdd tua 230 troedfedd o dan y ddaear

Ym mhentref Castleton, yn ardal y Peak yn swydd Derby, fe welwch amryw o siopau gemwaith yn gwerthu'r Blue John. Mae i'r mwyn yma rhyw wawr glas a melyn o'i gwmpas ac enw'r Ffrancwyr amdano yw *Bleu Jaune* yn golygu glas melyn, ac fe aeth hwn yn Blue John, math o felspar. Calsiwm fflworid yw'r Blue John 'ma, (CaF<sub>2</sub>) a chredir mai haen o olew wedi mynd rhwng y crisialau sydd wedi rhoi'r lliw arbennig iddo. Mae'n fwyn bregus iawn ac mae hi'n anodd cael darnau da ohono - yn ôl y mwynwr dim ond chwarter o beth maen nhw yn ei gloddio sydd yn ddefnyddiol. Darganfuwyd un ffordd o allu gweithio arno drwy ei socian mewn resin, a thrwy hyn allu gwneud llestr allan ohonno. Roedd powlen tua 2 fodfedd ar draws yn gwerthu am £300

Ifor Williams

## Pibonwy Pen y Gwryd



Ddiwrnod olaf 2009 y bachodd Alun Williams y llun hwn  
**...a mwy am pibonwy**

*Gaeaf 1813-14...From many buildings, icicles full 1½ yard long were seen suspended. One fall of snow continued 48 hours incessantly, after the ground had been covered with a condensation, the result of [nearly] 4 weeks' continued frost. A fair was kept on the Thames. This winter was long, but not remarkable for intensity of cold. ....*

Diaries of Walter Davies (Gwallter Mechain) for various periods from 1822-1845  
(Gyda diolch i Cerys Jones, Myfyrwraig ôl-radd, Prifysgol Aberystwyth)

Ar Radio Cymru yn ddiweddar sonwyd am "rew neu icycles" i olygu pibonwy fel pe na bai gair Cymraeg yn bod amdano. Ar wahan i pibonwy, mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn rhestru cloŷn iâ a chloch iâ ar gyfer y nodwedd hynod hon. Mae'r gair pibonwy yn mynd yn ôl i'r gyfres yr 'Oianau' yng Nghanu Myrddin yn yr 13ganrif: *Eiry hid impen clun. gan cun callet. Pibonvy imblev. blin wy russet sef, o'i gyfieithu i'r iaith fodern, "Eira hyd ym mhen clun; gyda chŵn NEU fleiddiaid y coedydd [yn gwmni]. Pibonwy mewn blew [= barf a gwallt]. Blin yw fy rhawd".* Ar ôl y tywydd diweddar dwi'n gwybod y teimlad....ond lle mae adran tywydd Radio Cymru wedi bod deudwch? [Gol.]  
Gyda diolch i'r Athro Gwyn Thomas am y cyfieithiad

## Rhew traeth Morfa Bychan



Traeth Morfa Bychan 7-8<sup>fed</sup> o Ionawr 2010. Roedd y darnau bach o rhew yn cael eu tirio gyda'r llanw, ac yn creu twmpathau bychain hyd at 4 modfedd o drwch! 'Da ni dal dan ddylanwad dŵr croyw Aber Dwyryd/Glaslyn yma, ond mae'r dwr dal yn hallt!  
Sylw a llun gan Sion Roberts

## Cofnodion y tsunami 20<sup>fed</sup> Ionawr 1607



"Y drasiedi fwyaf a ddioddefodd Gwastadeddau Gwent oedd llif enfawr 20 Ionawr 1607. (Ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg, y cyntaf o Fawrth oedd diwrnod cyntaf y flwyddyn, ac felly ar y pryd, ystyrid mai ym mis olaf ond un 1606, ac nid ym mis cyntaf 1607, y bu'r llif)."

"Cymru - Y 100 lle i'w gweld cyn marw" gan John Davies (Lluniau Marian Delyth)  
2009 Diolch i Marian Delyth am ganiatad i ddefnyddio'r llun uchod.

*Mistress Mathews of Llandaffe dwelling some four miles from the sea is said to have lost four hundred English ewes. Much corn is likewise there destroyed in that country, many houses ruined and many other kind of cattle perished so violent and swift were the outrageous waves that in less than five hours space most parts of those countreys (especially the places which lay lowe) were all overflown and many hundreds of people, both men & women and children were then quite devoured by the outrageous waters. A great part of the church next the waterside beaten down with water [Eglwys Santes Fair a roes yr enw i St Mary's Street heddiw, ond ni fu eglwys yno ar ôl hynny].*

Arddangosfa Bae Caerdydd 2008

*A sea surge inundates the area from Barnstaple to Gloucester, as far as Cardiganshire...Bristol is flooded...Gwent Levels inundated..death toll of 2000*

Woodward A. & Penn R. , The Wrong Kind of Snow\* (Hodder & Stoughton)

\* Dyfynnwyd 30 Ion 1607 yn y gyfrol hon ond cymerir mai camgymeriad ydyw. Ni chafwyd ateb gan y cyhoeddwr ynglyn â'r mater.

### **...ac eira Mawr Oes Fictoria: 1881**

18 Ion 1881 *The Great Victorian Blizzard*

Cylchgrawn Weather 51

18 Ion 1881, Llundain: *Continuation of severe frost and easterly gale in Thames estuary resulted in serious flooding. At high water ice floes were within one foot of the top of the terrace balcony of the House of Commons.*

Huw Holland-Jones Weather Notes

21 Ion 1881, Porthmadog: *an unusual record of a smew [lleian wen] obtained at Porthmadog market on 21 January 1881*

Birds in Wales: Lovegrove et al. (1994)

24 Ion 1881, Abergwyngregyn: *attendance very poor owing to the bad weather*

Cofnodion yr Aber National School: Archifdy Gwynedd

### **....a chofnod Arthur Lockwood o Gwm Dyli**

22 Chwefror 1908: *Rain and much wind Morning. Showery and windy 12. 1.15pm. Violent hurricane from Gwynant & a flash of lightning. This lasted about ¼ hr. Air full of dry heather, grasses etc, and water from the streams. Wind quieter at 2, but still rough. Dry after 3.30. cloudy night. Barometer readings [morn. 29.38, noon 29.3, night 29.46]. Blew tree down at P. y. G. [Pen y Gwryd]*


O ddyddiadur cofnodion tywydd Arthur Lockwood wedi eu cymryd yn ardal Cwm Dyli, gyda diolch i Steffan ab Owain, Archifdy Gwynedd

## **February filldyke**

*Genver a garg ar foz,  
C'hwevrer he dalc'hkloz  
(Mae Ionawr yn llanw'r ffos,  
Chwefror sy'n ei chadw ynghau)  
Mae adlais o hyn yn yr ymadrodd Saesneg am Chwefror fel mis y "filldyke"*

Cylchgrawn Breizh Llydaw

## Dyddiadur mordeithiau David Thomas Llandwrog



Rhagfyr 1884 ..sighted the Island of Trinidad [Isla Trinidad ar arfordir yr Ariannin]...a large Albatross was caught with a line by one of the sailors & it measured about 12 ft across the wings when they were expanded - it was bought by one of the saloon passengers and skinned.

Meddai Rhys Jones: "Wandering/crwydrol ydi o dwi'n meddwl, oherwydd siap y pig a'r maint - yr unig un ohonynt hefo lled adennydd dros 10 troedfedd. Methu dallt beth fasa fo'n neud yn y Caribi chwaith nes i mi ffeindio fod yna Ynys Trinidad arall, a llai adnabyddus oddiar bendraw Penrhyn yr Antartig! "Mae hyn yn dal i ddigwydd heddiw" meddai Tom Jones, "dal yr adar hyfryd yma ar lein bysgota gyda channoedd o fachau arni ac yn cael ei thynnu tu ôl i'r llongau pysgota yma".

**Yr albatros mewn barddoniaeth...**

**L'Albatros gan Charles Baudelaire**

*Lui, naguère si beau, qu'il est comique et laid!*

[Yntau, unwaith mor osgeiddig, ond mor chwerthinllyd a thrwsgl erbyn hyn....]

Cerdd am forwyr yn dal albatros am hwyl, ac yn ei brocio a gwneud hwyl am ei be. Mae Baudelaire yn y diwedd yn cyffelybu'r bardd i'r truan diymadferth ar fwrdd y llong. I weld y cyfan ohonni gwglwch *L'Albatros* Charles Baudelaire ..a chlasur arall,

**The Rhyme of the Ancient Mariner, gan S.T. Coleridge**



*At length did cross an  
Albatross,  
Thorough the fog it came ;  
As if it had been a Christian soul,  
We hailed it in God's name.*

Llun (chwith) gan y Ffrancwr Gustave Doré. Fe'i ganwyd ym mis Ionawr 1832 yn Strasbourg. Cyhoeddodd ei luniau yn darlunio stori am y tro cyntaf yn 15 oed. Ymysg ei ddarluniadau eraill oedd Don Quixote, Y Beibl Saesneg a 'r Gigfran gan Edgar Allen Poe. Bu farw yn 1883.

Roedd yr albatros yn arwydd o lwc i forwyr. Arweiniodd y llong yn y gerdd trwy'r rhew a'r niwl ond yn cael ei saethu gan un o'r criw gyda chanlyniadau trychinebus. Ewch i [http://etext.lib.virginia.edu/stc/Coleridge/poems/Rime\\_Ancient\\_Mariner.html](http://etext.lib.virginia.edu/stc/Coleridge/poems/Rime_Ancient_Mariner.html)

Meddai Aled Jones, "Hyd y gwn i 'does 'na ddim cyfieithiad Cymraeg o'r gerdd hon. Mae 'na adleisiau o'r gerdd yn 'Ynys yr Hud' W.J Gruffydd, e.e..... *Slowly and smoothly went the ship / Moved onward from beneath - 'Roedd rhyw law o dan y gwaelod, fel tae anweledig beiriant / Yn ein gwthio drwy'r llifeiriant, ...."*

Wyddoch chi am gerddi a choelion eraill am yr albatros chwi ddisgynyddion y morwyr Cymreig?

## Mwy o graffiti (...ar ôl Rhifyn 21 a 22)



Tyn Criafolen, Cwm Prysor. Graffiti ar y drws i'r llofft stabal, gan weishion y fferm. Mae y tri wedi gwneud symbol siap ty? Efallai i nodi mai yma yr oeddynt yn byw? Oes unrhywun wedi gweld rhywbeth tebyg?

Llun a chofnod Sion Roberts

Dewch a'ch graffiti i Llên Natur

Sylw gan Tom Jones: Byddai hyn yn cael ei wneud yn yr hen ddyddiau pan fyddai'r gweision yn byw yn y llofft stabal. Cofiaf i'm cyd weithiwr a minnau yn y chwedegau wneud yr un peth yn y llofft stabal lle bydden ni'n bwyta ond dim yn aros. Byddai rhai mewn blwch hirsgwar, eraill heb ddim, ond dim cof o weld rhai mewn ffurf ty' chwaith.

## Gweddillion morfil yn Llandanwg, Harlech




Corff y morfil pengrwn (neu morfil du, y *long-finned pilot whale*), *Globicephala melaena*. Wedi ei dirio ar draeth Llandanwg. Rhagfyr 2009. Ystyr *Globicephala* yw: 'pen crwn', oherwydd fod gan y morfil ben crwn fel pêl. Ystyr *melaena* yw 'du' - dyma liw croen yr anifail. Un o deulu'r dolffiniaid ydyw, er mai morfil yw'r enw cyffredin arno.

Sion Roberts

I weld y cofnodion eraill o forfilod yng Nghymru sydd wedi dod i law hyd yma yng ngwefan Llên Natur, cliciwch ar [MAPIAU](http://www.llenatur.org.uk), wedyn **DYDDIADUR** ac wedyn chwiliwch am **MORFIL**.

## Gwyfyn y lloeren - a'i dymor yn Waunfawr



Sut gafodd hwn ei enw "satellite" neu wyfyn y lloeren? Un o luniau agos Aled Jones, Penrhyndeudraeth.